OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1718 (Cy.185) (C.72)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud - - 9 Gorffennaf 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 216(3), (4)(b) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enw, cymhwyso a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003.

2. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru yn unig (ac eithrio mewn perthynas ag adrannau 139 a 197).

3. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at Rannau, adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at Rannau ac adrannau o Ddeddf Addysg 2002 a'r Atodlenni iddi.

Diwrnodau penodedig

4. 1 Awst 2003 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

5. 1 Medi 2003 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

6. 1 Tachwedd 2003 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan III o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(**1**) 2002 p.32.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D.Elis-Thomas
9 Gorffennaf 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Erthyglau 4, 5 a 6

RHAN I

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Awst 2003

Y ddarpariaeth	*Y pwnc*
Adrannau 60 i 64	Pwerau ymyrryd — Awdurdodau addysg lleol
Adran 178(1) a (4)	Arolygiadau ardal
Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod	Diddymiadau
Yn Atodlen 22, Rhan 3, diddymu —	Diddymiadau
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995(**3**), adran 28Q(12),	
Deddf Addysg 1996(**4**), adrannau 483(3A), 483A(7), 490, 497A(3), yn adran 580, y cofnodion sy'n ymwneud â "city academy", "city college for the technology of the arts", "city technology college",	
Deddf Dysgu a Medrau 2000(**5**), Atodlen 8.	

RHAN II

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2003

Y ddarpariaeth	*Y pwnc*
Adran 19(6) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 1 isod	Cyrff llywodraethu
Adrannau 27 a 28	Pŵer corff llywodraethu i ddarparu cyfleusterau cymunedol
Adran 29	Swyddogaethau ychwanegol cyrff llywodraethu
Adran 40 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 3 isod	Diwygiadau i Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Adran 136	Addysg bellach : darparu addysg
Adran 137	Penaethiaid sefydliadau addysg bellach
Adran 138	Hyfforddiant mewn darparu addysg bellach

(**3**) 1995 p.50.
(**4**) 1996 p.56.
(**5**) 2000 p.21.

Y ddarpariaeth	*Y pwnc*
Adran 139	Cymru : darparu addysg uwch
Adran 140	Addysg bellach : cyffredinol
Adrannau 181 i 185	Lwfansau ar gyfer addysg neu hyfforddiant
Adran 197	Cytundebau a datganiadau partneriaeth
Adran 199	Cludiant ar gyfer personau dros oedran ysgol gorfodol
Adran 202	Sefydliadau addysg bellach : cofnodion
Adran 203	Sefydliadau addysg bellach : deunydd peryglus, etc
Adran 206	Niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd addysg
Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod	Diddymiadau
Atodlen 1, paragraff 3(1) (ac eithrio paragraff (a)) ac is-baragraffau (3) i (8) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r pŵer a roddir gan is-baragraff (1)(b)	Cyrff llywodraethu
Atodlen 3, paragraffau 1 i 5	Diwygiadau i Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Atodlen 19	Cludiant ar gyfer personau dros oedran ysgol gorfodol
Atodlen 20	Niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd addysgol
Atodlen 21,	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Paragraff 4,	
Paragraff 34	
Yn Atodlen 22, Rhan 3, diddymu	Diddymiadau
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982(**6**), adran 40,	
Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**7**), yn Atodlen 8, paragraff 90,	
Deddf Addysg 1996, adran 509(6), ac yn Atodlen 37, paragraff 55,	
Deddf Addysg 1997(**8**), yn Atodlen 7, paragraff 9(3),	

(**6**) 1982 p.30.
(**7**) 1992 p.13.
(**8**) 1997 p.44.